Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# Ysgol Marlowe St David's

## Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2016

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 09/12/2017**

## Cyd-destun

Ysgol annibynnol fach i fechgyn a merched rhwng saith a deunaw oed yw Ysgol Marlowe St David's. Mae'r ysgol mewn lleoliad gwledig yng ngogledd Sir Benfro. Marlowe Child and Family Services Ltd sy'n berchen ar yr ysgol ac yn ei rheoli.

Mae'r ysgol wedi ei chofrestru i dderbyn hyd at 20 o ddisgyblion ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol (ACEY). Ar hyn o bryd, mae 12 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae tua hanner y disgyblion yn byw yng nghartrefi plant y cwmni. Mae chwe disgybl dan ofal awdurdodau lleol. Mae gan chwe disgybl ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA).

Ymunodd pennaeth dros dro â'r ysgol ym Mai 2016 i gyflenwi tra cynhaliodd y perchennog broses recriwtio i benodi pennaeth parhaol. Ymunodd y pennaeth presennol â'r ysgol ym mis Hydref 2016.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

Mae disgyblion sy'n mynychu'r ysgol ac yn cymryd rhan mewn gwersi yn meithrin perthynas waith dda â'r holl staff yn yr ysgol.

Mae penodiad diweddar iawn y pennaeth parhaol wedi cael effaith gadarnhaol ar forâl staff yr ysgol.

Mae'r staff yn croesawu'r cynlluniau diweddar ar gyfer gwella. Maent yn frwdfrydig ynghylch dyfodol yr ysgol.

### Meysydd i'w datblygu

Nid oes gan y cwmni systemau priodol ar waith i sicrhau parhad pan fydd newidiadau i'r staff.

Ychydig iawn o gynnydd a wnaed gan yr ysgol yn erbyn yr argymhellion a wnaed yn ystod yr arolygiad llawn yn 2014 a'r ymweliadau monitro yn 2015 a 2016.

Mae lefel uchel o absenoldebau staff wedi effeithio ar lefel yr oruchwyliaeth. Nid oes gan yr ysgol brosesau effeithiol ar waith i sicrhau bod y lefelau staffio a'r cyfrifoldebau yn briodol o ddydd i ddydd.

Mae lleiafrif o ddisgyblion yn ymddwyn yn wael y tu allan i'r ystafell ddosbarth, er enghraifft ar ddechrau'r diwrnod. Mae diffyg strwythurau a gweithdrefnau clir ar gyfer rheoli ymddygiad yn golygu nad oes dull cyson rhwng staff yr ysgol a'r lleoliadau gofal. Bu gormod o ddigwyddiadau ymddygiad lefel uchel, gan gynnwys

ymosodiadau corfforol ar staff a disgyblion. O ganlyniad, nid yw staff a disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol bob amser.

Nid oedd asesiadau risg ar gyfer ymweliadau allanol, defnyddio ardaloedd mewnol ac allanol, a gweithio'n unigol ar gael adeg yr arolygiad. Nid oes gan ddrysau'r ystafelloedd dosbarth baneli archwilio gwydr, a gellir eu cloi. Mae hyn yn rhoi staff a disgyblion mewn perygl.

Mae lefelau presennol cyffredinol yn isel iawn. Mae gormod o ddisgyblion ar amserlenni rhan-amser heb gynllun clir i'w symud i addysg amser llawn. Roedd y gofrestr bresenoldeb yn anghywir adeg yr arolygiad. Nid yw athrawon yn cofnodi hwyrddyfodiaid, cyfnodau gwahardd neu absenoldebau anawdurdodedig yn gywir.

Er yr adolygwyd polisïau allweddol yn ymwneud â diogelu yn ddiweddar, nid ydynt wedi eu diweddaru i adlewyrchu'r trefniadau staffio presennol. Nid yw ychydig o bolisïau yn adlewyrchu arfer yn yr ysgol.

**Argymhellion**

A1 Cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003

A2 Mynd i'r afael â'r materion diogelu a nodwyd yn yr adroddiad

A3 Sicrhau bod digon o staff â'r hyfforddiant perthnasol bob amser, er mwyn sicrhau bod staff a disgyblion yn ddiogel

A4 Gwella ymddygiad pob disgybl

A5 Gwella presenoldeb a phrydlondeb pob disgybl

A6 Sicrhau bod yr holl bolisïau a dogfennau yn gyfredol ac yn adlewyrchu gwaith yr ysgol

## Cynnydd wrth fynd i’r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygiad blaenorol

**Argymhelliad 1: Cydymffurfio’n llawn â’r rheoliadau ar gyfer cofrestru**

Ni aethpwyd i’r afael â’r argymhelliad hwn.
Er i’r ysgol fynd i’r afael ag ychydig iawn o’r materion cydymffurfio a nodwyd yn ystod yr ymweliad blaenorol, mae rhagor o faterion yn ymwneud â diffyg cydymffurfio erbyn hyn. Yn ogystal â’r safonau nas bodlonwyd isod, nid oes gan yr ysgol bolisi priodol ar y cwricwlwm [1(2)].

**Argymhelliad 2: Sicrhau bod yr holl bolisïau yn gyfoes, yn benodol i’r ysgol ac yn cael eu hadolygu’n rheolaidd**

Aethpwyd i’r afael â’r argymhelliad hwn yn rhannol.

Ers yr ymweliad diwethaf, mae’r ysgol wedi adolygu sawl un o’i pholisïau, gan gynnwys y rhai yn ymwneud â diogelu, ymddygiad, gwrthfwlio a chymorth cyntaf. Fodd bynnag, ni ddiweddarwyd y polisïau i adlewyrchu’r newidiadau staffio. Mewn ychydig o achosion, mae sawl fersiwn wahanol o bolisïau. Nid oes gan staff wybodaeth ddigon clir am yr holl bolisïau, ac nid yw llawer ohonynt yn cael eu rhoi ar waith.

**Argymhelliad 3: Sicrhau bod cynllun datblygu’r ysgol yn nodi targedau clir a hygyrch ar gyfer gwella**

Ni aethpwyd i’r afael â’r argymhelliad hwn.

Nid oes gan yr ysgol gynllun datblygu priodol ar hyn o bryd. Mae’r pennaeth a benodwyd yn ddiweddar wedi llunio templed ar gyfer y cynllun datblygu ysgol ac wedi dechrau nodi meysydd i’w gwella. Fodd bynnag, nid yw’r rhain yn cynnwys gwella trefniadau diogelu, ymddygiad a phresenoldeb.

**Argymhelliad 4: Datblygu system rheoli perfformiad fwy addas sy’n canolbwyntio ar safonau a lles**

Ni aethpwyd i’r afael â’r argymhelliad.

Mae’r ysgol wedi cyflwyno fframwaith rheoli perfformiad newydd yn ddiweddar. Fodd bynnag, ni roddwyd y fframwaith hwn ar waith hyd yn hyn.

**Argymhelliad 5: Dadansoddi data disgyblion yn fwy effeithiol i lywio cynllunio**

Ni aethpwyd i’r afael â’r argymhelliad hwn.

Mae’r ysgol yn parhau i gasglu ystod o ddata, ond nid yw rheolwyr yn dadansoddi’r wybodaeth hon.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 1

**Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 2

**Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio yn llawn ar gyfer y safon hon. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- baratoi a gweithredu polisi ysgrifenedig i atal bwlio sy'n ystyried arweiniad Llywodraeth Cymru [3(2a)]
- paratoi a gweithredu polisïau ysgrifenedig i ddiogelu a hyrwyddo lles plant sy'n ddisgyblion yn yr ysgol, sy'n cydymffurfio ag arweiniad Llywodraeth Cymru [3(2b)]
- paratoi a gweithredu polisi ysgrifenedig yn ymwneud ag iechyd a diogelwch disgyblion ar weithgareddau y tu allan i'r ysgol sy'n ystyried arweiniad Llywodraeth Cymru [3(2c)]
- paratoi a gweithredu polisi ysgrifenedig i hyrwyddo ymddygiad da ymhlith disgyblion sy'n amlinellu'r cosbau a fabwysiedir os bydd disgyblion yn camymddwyn [3(2d)]
- defnyddio staff yr ysgol mewn modd sy'n sicrhau goruchwyliaeth briodol i ddisgyblion [3(7)]
- cadw cofnodion ysgrifenedig o gosbau a roddir i ddisgyblion am dramgwyddau disgyblu difrifol [3(8)]
- cynnal cofrestr derbyn a phresenoldeb yn unol â Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010 [3(9)]

**Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff**

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio yn llawn ar gyfer y safon hon. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- sicrhau bod yr unigolyn cyfrifol wedi gwneud cais am dystysgrif datgelu a gwahardd briodol ac y caiff y cais ei gydlofnodi gan Lywodraeth Cymru [4(aa)]

## Safon 5: Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5

## Safon 6: Darparu gwybodaeth

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio yn llawn ar gyfer y safon hon. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol sicrhau bod y wybodaeth ganlynol ar gael:

- Cyfeiriad a rhif ffôn yr ysgol, ac enw'r pennaeth [6(2a)]

- Manylion am y weithdrefn gwyno a fabwysiadwyd gan yr ysgol, ynghyd â manylion am nifer y cwynion a gofrestrwyd dan y weithdrefn ffurfiol yn ystod y flwyddyn ysgol flaenorol [6(2j)]

- Nifer y staff a gyflogir yn yr ysgol, gan gynnwys staff dros dro, a chrynodeb o'u cymwysterau [6(2k)]

## Safon 7: Y modd yr eir i'r afael â chwynion

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio yn llawn ar gyfer y safon hon. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- gadw cofnodion ysgrifenedig o'r holl gwynion, gan nodi a chawsant eu datrys yn ystod y cam rhagarweiniol, neu b'un a aethant ymlaen i wrandawiad panel [7j]

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, gallai Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion ar gyfer Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 ar hyn o bryd. I gydymffurfio'n llawn â'r gofynion hyn, dylai'r ysgol fynd i'r afael â'r materion a nodwyd uchod ar gyfer pob safon

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Uned Addysg Marlowe St David's |
| **Rhif yr ysgol** | 668/6014 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 09/11/2016 |
| **Perchennog** | Marlow Children & Family Services Ltd. |
| **Staff** | Pennaeth (Cydlynydd AAA), 4 athro, 5 cynorthwyydd cymorth dysgu, staff gofal |
| **Nifer y disgyblion** | 12 |
| **Darpariaeth** | Dydd |
| **Math o angen addysgol arbennig y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol ac anhwylderau ar y sbectrwm awtistig |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | 03/02/2014 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 06/06/2016 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | Ddim yn berthnasol |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| Mrs Caroline Rees | Arolygydd Cofnodol |
| Margaret Elisabeth Davies | Arolygydd Tîm |